**Theatr Clwyd**
Dirprwy Reolwr Cynhyrchu
Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| Teulu: | Creu Theatr |
| Yn adrodd i: | Pennaeth Cynhyrchu |
| Yn gyfrifol am: | AMH. |

**Pwrpas y Swydd**

Mae'r Dirprwy Reolwr Cynhyrchu yn rhan o’r teulu Creu Theatr a bydd yn cefnogi'r Rheolwr Cynhyrchu a'r Pennaeth Cynhyrchu gyda dyletswyddau rheoli a gweithredol cynyrchiadau Theatr Clwyd, gan ysgwyddo cyfrifoldeb arweiniol am brosiectau yn ôl yr angen.

Bydd y Dirprwy Reolwr Cynhyrchu yn frwdfrydig am bob elfen o'r broses dechnegol ac yn awyddus i ddatblygu ei sgiliau a'i brofiad o ran sut mae elfennau technegol yn cael eu dwyn at ei gilydd i droi syniad creadigol yn gynhyrchiad wedi'i wireddu'n llawn. Byddwch yn deall pwysigrwydd prosesau cadarn, gweinyddiaeth a chynllunio amserol, a chyfathrebu gydag amrywiol randdeiliaid mewnol ac allanol i sicrhau proses gynhyrchu lyfn.

Byddwch hefyd yn angerddol am fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy newid ac atebion ymarferol, gan eiriol dros Lyfr Gwyrdd y Theatr ym mhob elfen o'r broses gynhyrchu.

**Cyffredinol**

- Fel rhan o'r tîm, rheoli cynyrchiadau Theatr Clwyd yn ôl yr angen.
- Ysgwyddo cyfrifoldeb am gynyrchiadau dan arweiniad Ymgysylltu Creadigol yn ôl yr angen.
- Cydlynu a goruchwylio safon uchel o ran cyflwyno golygfeydd, props, gwisgoedd, goleuadau, sain a phob agwedd arall ar gynhyrchu corfforol o fewn briffiau, cyllidebau ac amserlenni y cytunwyd arnynt.
- Cefnogi'r Rheolwr Cynhyrchu a defnyddio dull creadigol a blaengar o ddatrys problemau i sicrhau bod y tîm yn cydweithio'n braf, yn effeithiol ac yn gefnogol o fewn y sefydliad cyfan.
- Rheoli'r swyddogaethau cynhyrchu llawrydd ar sioeau mewnol yn ôl yr angen.
- Ar brosiectau penodol, bod yn gyfrifol am y cyllid, rheoli ymchwil ac adroddiadau ariannol cyllidebau cynhyrchu Theatr Clwyd yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Cynhyrchu a’r Pennaeth Cynhyrchu.

**Rheoli Cynhyrchu**

- Wrth arwain cynhyrchiad, sicrhau bod timau creadigol ac artistiaid yn teimlo eu bod yn cael croeso, yn rhan o bethau ac yn cael eu cefnogi yn yr adeilad ac yn derbyn y lefel uchaf o gefnogaeth dechnegol bob amser.
- Cysylltu â gweithwyr creadigol gwadd i benderfynu ar yr anghenion technegol ar gyfer cynyrchiadau a chynghori ar ba bosibiliadau technegol y gall Theatr Clwyd eu cynnig.
- Cefnogi'r Tîm Cynhyrchu wrth gysylltu â rheolwyr cynhyrchu llawrydd a darparu cefnogaeth yn ôl yr angen.

- Rheoli wythnosau cynhyrchu, gan sicrhau bod ymarferion a chyfarfodydd cynhyrchu'n rhedeg yn esmwyth.
- Yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Cynhyrchu, rheoli nifer o gynyrchiadau Theatr Clwyd yn fewnol ac ar daith.

**Offer**

- Ymgymryd â llogi neu brynu offer arbenigol a / neu gymorth technegol yn ôl yr angen ar gyfer cynyrchiadau o dan gyfarwyddyd y Rheolwr Cynhyrchu a'r Pennaeth Cynhyrchu.
- Arwain y criw i storio a chynnal eitemau stoc o ddodrefn, eiddo a lleoliadau yn ôl yr angen.

**Diogelwch**

- Cynnal a hyrwyddo arferion gwaith diogel yn unol â gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch.
- Cwblhau asesiadau risg a datganiadau dull a chydymffurfio â rheoliadau CDM fel maent yn berthnasol i gynyrchiadau theatr.

**Arall**

- Darparu'r lefel uchaf o ofal a gwasanaeth i'r gynulleidfa bob amser.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Cynhyrchu i hyrwyddo a gwella cynaliadwyedd amgylcheddol drwy gynllunio a rheoli pob cynhyrchiad yn effeithiol ac ar draws pob elfen o'r rôl.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl cais rhesymol y Rheolwr Cynhyrchu a'r Pennaeth Cynhyrchu.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Profiad o reoli cynhyrchu neu rôl arweiniol arall o fewn yr adrannau rheoli llwyfan neu dechnegol mewn theatr gynhyrchu neu gwmni cynhyrchu theatr, a / neu gymhwyster lefel gradd / cyfatebol mewn pwnc perthnasol.
- Profiad clir o reoli ariannol gan gynnwys adrodd cyllidebol ac ariannol.
- Sgiliau cyfathrebu a thrafod rhagorol.
- Sylw rhagorol i fanylder.
- Sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol, gyda'r gallu i reoli nifer o ffrydiau gwaith a gweithio dan bwysau.
- Lefel uchel o wybodaeth am bob disgyblaeth dechnegol yn y theatr a disgyblaethau cynhyrchu.
- Sgiliau drafftio a phrofiad o ddefnyddio meddalwedd CAD.
- Gwybodaeth weithredol dda am ddeddfwriaeth drwyddedu ac Iechyd a Diogelwch.
- Ymrwymiad i ragoriaeth artistig.

**Dymunol**

- Gwybodaeth weithredol dda a phrofiad ymarferol o Adobe CS (Photoshop, Illustrator) a dealltwriaeth o argraffu digidol.
- Cymhwyster Cymorth Cyntaf.

- Gwybodaeth am fyd y theatr, dawns a ffurfiau celf eraill yn y DU yn gyffredinol a Chymru yn benodol.
- Cymraeg ysgrifenedig a llafar.
- Trwydded yrru lawn a glân.